


COVID-19: Rhestr Wirio ar gyfer Busnesau Twristiaeth a Lletygarwch – CADW PELLTER CYMDEITHASOL

Diogelu Cymru Gyda'n Gilydd

Fel rhywun sy'n rhedeg llety, tafarn, bar, caffi neu fwyty, dylech gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod pellter o 2 fetr rhwng pobl sydd ar eich safle neu sy'n aros i fynd i mewn i'ch safle.

Lle nad yw pellter cymdeithasol o 2 fetr yn ymarferol neu yn hyfyw yn fasnachol, mae'n arbennig o bwysig cymryd camau lliniaru rhesymol eraill i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.



Defnyddio arwyddion clir a dulliau eraill o gyfathrebu i wneud yn siŵr bod cwsmeriaid yn cadw pellter cymdeithasol.



Sicrhau rhagor o aer glân drwy agor ffenestri a drysau (nid drysau tân).




Defnyddio systemau un ffordd e.e. defnyddio arwyddion, marciau ar y llawr, rhaffau/rhwystrau neu saethau ar y llawr, a rhoi cyfarwyddyd i westeion/ymwelwyr symud drwy fannau cyhoeddus caeedig cyn gynted â phosibl.



Sicrhau bod unrhyw orchuddion ffisegol sy'n cael eu defnyddio yn yr awyr agored ar agor ar o leiaf 3 ochr, neu mwy na 51% ar agor.



Defnyddio systemau ciwio gan gynnwys arwyddion i atgoffa pobl (megis tîp ar y llawr) i gadw pellter cymdeithasol.



Rhaid Rheoli Mynediad mewn **llefydd trwyddedig**. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cwsmeriaid yn archebu ymlaen llaw lle bynnag y bo modd. I gael rhagor o fanylion gweler y rhestr wirio ar gyfer '[Cadw Cofnodion](#)'.



Rhaid gweithredu gwasanaeth bwrdd mewn llefydd trwyddedig.



Defnyddio Apiau i archebu bwyd a diod i leihau'r cysylltiad rhwng staff a chwsmeriaid.




GIG
CYMRU
NHS
WALES



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

COVID-19: Rhestr Wirio ar gyfer Busnesau Twristiaeth a Lletygarwch - CADW PELLTER CYMDEITHASOL

Diogelu Cymru Gyda'n Gilydd



Os yw'r grŵp yn cynnwys pobl o gartrefi gwahanol, rhaid i chi gymryd camau rhesymol i sicrhau eu bod yn dilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol a mesurau ychwanegol.



O fewn llety, sicrhau bod gwesteion yn cadw'r drysau i'w hystafelloedd ar gau bob amser, ar wahân i'r adeg pan fyddant yn mynd i mewn ac yn gadael.



Peidio â gadael i gwsmeriaid yfed neu ymgynnull wrth y bar neu mewn mannau eraill.



Sicrhau bod pellter cymdeithasol mewn toiledau drwy gau rhai toiledau/ wrinalau a basnau ymolchi (neu osod rhaniadau addas), a chyfyngu ar nifer yr unigolion sy'n gallu eu defnyddio ar yr un pryd.




Defnyddio seddi cefn wrth gefn neu ochr yn ochr (yn hytrach na wyneb yn wyneb), gan gynnwys gosod rhwystrau ffisegol fel sgriniau diogelu - y gellir eu glanhau'n effeithiol - rhwng y byrddau.



Defnyddio timau penodol o staff ar gyfer pob shift, a llai o rannu offer.



Gosod rhwystrau corfforol megis sgriniau diogelwch rhwng byrddau, desgiau'r dderbynfa, a gorsafoddd talu y gellir eu golchi a'u glanhau yn effeithiol.



Rhoi lle i staff sicrhau pellter cymdeithasol wrth weithio ym mhob rhan o'ch safle.



Lleihau sŵn a cherddoriaeth uchel i osgoi gweiddi, a phaidio â chaniatáu perfformiadau byw.



Dynodi aelod staff i fonitro protocolau diogelwch COVID-19.



Sicrhau bod eich asesiad risg COVID-19 penodol ar gael i'r cyhoedd.

Am ragor o wybodaeth ewch i: <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-busnesau-twristiaeth-a-lletygarwch-coronafeirws>

